Partneriaeth Economaidd Gwynedd

Cadeirydd / Chair - Dafydd Iwan
Îs-Gadeirydd / Vice-Chair - Menna Jones

Dan Ofal / Care Of: Adran Economi a Chymuned
Cyngor Gwynedd
Swyddfa'r Cyngor, Stryd Y Jêl
Caernarfon, LL55 1SH
T: 01286 679 343
F: 01286 679 338
peg@gwynedd.gov.uk
www.pegwynedd.org.uk

25.05.2011

I Gynghorau Cymuned Gwynedd

CYFLE I DORRI TIR NEWYDD ER BUDD EICH CYMUNEDAU

Mae Partneriaeth Economaidd Gwynedd wedi sicrhau £655,990 o Gynllun Datblygu Gwledig Llywodraeth Cymru i gynnig cyfle unigryw i bump o gymunedau'r sir dderbyn cymorth er mwyn darganfod ffyrdd newydd o gynnig gwasanaethau sylfaenol o fewn eu cymunedau er mwyn dod yn hunangynhaliol a chynaliadwy.

Bydd y prosiect arloesol yma yn torri tir newydd yn y maes datblygu iechyd economaidd a safon bywyd yng nghymunedau Gwynedd. Dyma gyfle euraidd i'ch cymuned fod ar flaen y gad ac i ddangos sut all ardaloedd gwledig ffynnu yn nawr ac i'r dyfodol.

Gweler ynghlwm bamffledi yn nodi'r math o gymorth sydd ar gael i'r cymunedau drwy'r prosiect hwn. Bydd y pum cymuned yn cael eu dewis fel rhan o broses agored gystadleuol a bydd angen i'r cymunedau sydd â diddordeb yn y prosiect lenwi ffurflen 'Datganiad o Ddiddordeb' (ar gael drwy gais o ddiwedd mis Mehefin). Bydd cyfres o sesiynau i hyrwyddo'r prosiect a chyflwyno enghreifftiau o brosiectau posib yn cael eu cynnal ar draws y sir rhwng Mehefin - Medi 2011, a byddaf yn eich llythyru eto maes o law unwaith y bydd dyddiadau a lleoliadau wedi cael eu cadarnhau.

Am ragor o fanylion mae croeso i chi gysylltu a mi ar y rhif isod. Byddwn hefyd yn gwerthfawrogi petai modd i chi basio'r wybodaeth ymlaen i unrhyw fudd ddeiliad allweddol o fewn eich cymunedau.

To Gwynedd's Community Councils

BREAKING NEW GROUNDS FOR THE BENEFIT OF YOUR COMMUNITY

Gwynedd Economic Partnership has secured £655,990 of the Welsh Assembly's Rural Development Plan in order to offer an unique opportunity to five communities within the County to receive support to discover new ways of providing primary services within their communities in order to become self sufficient and sustainable.

This innovative project will improve the economic health and quality of life in Gwynedd's rural communities. Here's a golden opportunity for your community to lead the way and to showcase how rural areas can flourish now and into the future.

Please see enclosed a leaflet highlighting the type of support which will be available for the communities through this innovative project. Five communities will be chosen as the result of an open competitive process, and communities with an interest in the project will need to complete an Expression of Interest form (available upon request from the end of June onwards). A series of sessions to promote the project and provide examples of possible community schemes will be held across the county between June – September 2011, I will inform you of these once the dates and locations have been confirmed.

Should you require further information please contact me on the number below. I would also be grateful if you could pass the information on to any potential stakeholders within your community.

Sioned Morgan
Swyddog Echel4 Cynllun Datblygu Gwledig Gwynedd / Gwynedd's Rural Development Plan Axis4 Officer
(01286 679628 / SionedMorgan@gwynedd.gov.uk)

LLWYDDO YNG NGWYNEDD
BWRDD YR IAITH GYMRAEG · WELSH LANGUAGE BOARD
Llywodraeth Cynulliad Cymru Welsh Assembly Government